Cyngor Sir Penfro - Ffurflen Gyflwyno Rheoliadau Adeiladu

DEDDF ADEILADU 1984
RHEOLIADAU ADEILADU 2010
DEDDF DIOGELWCH ADEILADAU 2022
RHEOLIADAU DIOGELWCH ADEILADAU (DISGRIFIAD O ADEILAD RISG UWCH) (CYFNOD DYLUNIO AC ADEILADU) (CYMRU) 2023

Ansawdd a Rhagoriaeth Mewn Adeiladu

Mewn effaith 1af Medi 2026

TEIPIWCH NEU DDEFNYDDIO PRIFLYTHRENNAU OS GWELWCH YN DDA

1 **Math o gais** *(ticiwch fel y bo'n briodol)*

Cynlluniau Llawn ☐ Rhybudd Adeiladu ☐ Ailgyflwyno ☐ Rheoleiddio ☐

Ar gyfer Ailgyflwyno, rhowch y cyfeirnod blaenorol os gwelwch yn dda: ____

Ar gyfer dychweliadau, ticiwch yma: ☐

2 **Cyfeiriad safle'r gwaith adeiladu -** *Sylwer: Dylid cynnwys cynllun lleoliad sy'n ddigon da i fedru adnabod y safle yn rhwydd.*

Cyfeiriad: ____

Cod Post: ____

3 **Disgrifiad llawn o'r gwaith** *(e.e. estyniad un llawr i ehangu'r lolfa)*

____

Nifer yr ystafelloedd gwely (anheddau newydd yn unig): ____

Dyddiad dechrau (os yw'n hysbys): ____

Dyddiad cychwyn os yw'n hysbys (gweler 'Nodiadau Ymgeisio' am eglurhad): ____

Gall y rolau 4 i 8 isod orgyffwrdd ond rhaid eu nodi'n glir o hyd.

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod y cleient yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau fel deiliad dyletswydd. Rhaid i'r cleient gadarnhau penodiad y deiliad/deiliaid dyletswydd cytunedig isod. Rhaid hysbysu'r adran Rheoli Adeiladu am unrhyw newidiadau i benodiad deiliaid dyletswydd.

4 **Manylion yr ymgeisydd** *(rhowch yr enw **LLAWN**, cyfeiriad post a manylion)*

Yr ymgeisydd yw'r unigolyn neu'r cwmni sy'n ymdrin â'r cais. Noder y bydd gohebiaeth yn cael ei hanfon at yr unigolyn/cwmni a enwir fel ymgeisydd.

Mr/ Mrs/ Ms/ Miss/ Dr : ____ Cyntaf: ____ Cyfenw: ____

Cwmni: ____

Cyfeiriad: ____

Cod Post: ____ Ffôn: ____ Symudol: ____

E-bost: ____

5 **Manylion y cleient** (*Deiliad dyletswydd gyfreithiol dros gydymffurfedd - yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n comisiynu'r gwaith adeiladu*)

Mr/ Mrs/ Ms/ Miss/ Dr : ____ Cyntaf: ____ Cyfenw: ____

Cwmni: ____

Cyfeiriad: ____

Cod Post: ____ Ffôn: ____ Symudol: ____

E-bost: ____

6 **Manylion y prif gontractwr / unig gontractwr** *(Y contractwr sydd â rheolaeth gyffredinol dros y cyfnod adeiladu)*

Cwmni: ____________ Enw cyswllt: ____________

Cyfeiriad: ____________

Cod Post: ____________ Ffôn: ____________ Mobile: ____________

E-bost: ____________

7 **Manylion y Prif Ddylunydd / Unig Ddylunydd** *(Y parti sy'n gyfrifol am baratoi'r gwaith dylunio)*

Cwmni: ____________ Enw cyswllt: ____________

Cyfeiriad: ____________

Cod Post: ____________ Ffôn: ____________ Symudol: ____________

E-bost: ____________

8 **Pwy sy'n gorfod talu'r Tâl Archwilio?** *(rhowch yr enw LLAWN, cyfeiriad post a manylion)*

Mr/ Mrs/ Ms/ Miss/ Dr : ____________ Cyntaf: ____________ Cyfenw: ____________

Cyfeiriad: ____________

Cod Post: ____________ Ffôn: ____________ Symudol: ____________

E-bost:

(Os yw cwmni NAD YW'N GYFYNGEDIG yn gorfod talu, rhowch enw'r perchennog os gwelwch yn dda)

9 **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (fel y'i diwygiwyd)**

A fydd yr adeilad, neu ran ohono, yn adeilad perthnasol o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (e.e. adeiladau masnachol, adeiladau cynulliad, llety gwyliau ac ati)

Bydd ☐ **Na fydd** ☐

10 **Defnydd presennol yr adeilad**

Defnydd presennol (gan gynnwys defnydd presennol pob llawr): ____________

Uchder presennol yr adeilad: ____________

Nifer y lloriau yn yr adeilad fel y'i pennir yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau Diogelwch Adeiladau (Disgrifiad o Adeilad Risg Uwch) (Cyfnod Dylunio ac Adeiladu) (Cymru) 2023 ____________

11 **Defnydd arfaethedig yr adeilad**

Defnydd arfaethedig (gan gynnwys defnydd bwriadedig pob llawr): ____________

Uchder yr adeilad ar ôl y gwaith arfaethedig: ____________

Nifer y lloriau yn yr adeilad ar ôl y gwaith arfaethedig fel y'i pennir yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau Diogelwch Adeiladau (Disgrifiad o Adeilad Risg Uwch) (Cyfnod Dylunio ac Adeiladu) (Cymru) 2023: ____________

12 **Cymeradwyo'r cais rheolaeth adeiladu gyda chynlluniau llawn, yn ddarostyngedig i'r gofynion canlynol**

A ydych chi'n rhoi eich cydsyniad i ganiatáu'r cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu â chynlluniau llawn yn ddarostyngedig i ofynion?

Ydw ☐ **Nac ydw** ☐

Yr hyn a olygir wrth ofynion yw addasiadau y gall yr awdurdod rheolaeth adeiladu eu nodi y mae'n rhaid eu gwneud i'r cynlluniau llawn, neu ofyniad gan yr awdurdod i ddarparu cynlluniau pellach cyn i'r gwaith y mae'r cynlluniau hynny'n ymwneud ag ef ddechrau.

13 **Cyfnod Rhagnodedig** *(gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu â chynlluniau llawn yn unig)*

Gellir ymestyn y cyfnod statudol ar gyfer ymdrin â’ch cais, trwy gytundeb, o bum wythnos i gyfnod a argymhellir o ddau fis.*

Ydych chi'n cytuno i hyn? **Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐

Iir ymestyn y cyfnod hwn ymhellach trwy gytun

14 **Trefniadau draenio a chyflenwi dŵr** *(e.e. cysylltiad â phrif garthffos gyhoeddus bresennol neu waith trin carthion newydd)*

Modd o garthffosiad: ______________________ **Newydd** ☐ **Yn bodoli** ☐

Modd o drin dŵr arwyneb: ______________________ **Newydd** ☐ **Yn bodoli** ☐

Cyflenwad Dŵr: Prif Bibell: ☐ Arall: ______________________ *(manylion os gwelwch yn dda)*

15 **Cyfrifiadau SAP**

Cyfrifiad SAP wedi ei atodi ☐

Os yw'r cynnig ar gyfer tŷ newydd, fflat, addasiad neu estyniad (lle mae arwynebedd y gwydr yn fwy na 25% o arwynebedd llawr yr estyniad) bydd angen cyflwyno SAP cynllunio, ddim hwyrach na'r diwrnod cyn i waith ddechrau ar y safle.

16 **Gosodiadau trydanol domestig**

Cadarnhewch os gwelwch yn dda a fydd yr holl waith trydanol sydd ei angen yn gysylltiedig â'r cais hwn yn cael ei wneud gan drydanwr sy'n aelod o gynllun person cymwys cymeradwy:

☐ Cynllun Person Cymwys

☐ Tystysgrif BS7671

☐ **NA** Bydd Rheoli Adeiladu yn trefnu i archwilio'r gwaith trydanol. (Sylwer y bydd tâl ychwanegol ar gyfer y dewis uwchben y tâl arferol ar gyfer cais. Gwelwch y cynllun taliadau am fanylion)

17 **Caniatâd Cynllunio**

Dylai pobl sy'n bwriadu gwneud gwaith neu wneud newid sylweddol yn y modd y defnyddir adeilad gofio y gallai'r Deddfau Cynllunio Gwlad a Thref fynnu bod angen caniatâd:

A ydych chi wedi holi a oes arnoch chi angen caniatâd cynllunio neu adeilad rhestredig ar gyfer y gwaith? **Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐

Ydych chi wedi gwneud cais am ganiatâd cynllunio neu adeilad rhestredig ar gyfer y gwaith? **Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐

Os ydych chi, beth yw cyfeirnod y cais? ______________________

18 **Gwaith ar gyfer yr Anabl** *(taliad wedi ei eithrio yn amodol ar dystiolaeth ddigonol)*

A yw'r gwaith yn perthyn i un o'r categoriau isod? **Ydi** ☐ **Nac Ydi** ☐

a) Darparu mynediad ar gyfer person anabl sy'n breswylydd parhaol yn yr annedd.

b) Darparu llety neu gyfleusterau i wella iechyd, lles, diogelwch neu gyfleustra person anabl sy'n byw'n barhaol yn yr adeilad, lle na ellir defnyddio'r llety presennol at y dibenion hynny heb gymorth.

c) Mae'r cyfleuster newydd i'w ddefnyddio'n unig ar gyfer storio offer meddygol at ddefnydd y preswylydd anabl.

d) Bydd yr ystafell newydd yn darparu man cysgu ar gyfer gofalwr lle bydd angen gofal 24 awr ar y preswylydd anabl.

e) Darparu modd mynediad ar gyfer person anabl i adeilad sydd eisoes yn bodoli a lle chaniateir mynediad i'r cyhoedd.

f) Darparu cyfleusterau mewn adeilad lle caniateir mynediad i'r cyhoedd er mwyn sicrhau gwell iechyd, diogelwch lles neu gyfleustra i berson anabl.

Nodiadau:

Nid yw'r eithriad hwn o ran ffi yn berthnasol i adeiladu adeilad newydd. Pan fo rhan yn unig o'r gwaith yn bodloni un o'r meini prawf uchod, bydd y ffi yn adlewyrchu'r elfen honno o'r gwaith sy'n gymwys am eithriad.

FFIOEDD (cyfeiriwch yn ogystal at Daliadau Rheoliadau Adeiladu a'r Canllawiau)

19 **Taliadau:**

Arwynebedd llawr yr estyniad / gwaith annomestig		m2 (Tablau B & D)
Amcan bris am y gwaith £		(Tablau C & E)
Categori Datblygiad (e.e.AI, B35)		

Cais Cynlluniau Llawn	Cost	TAW	Cyfanswn
Plan Fee £:			
Inspection Fee £:			

Cais am Hysbysiad Adeiladu	Cost	TAW	Cyfanswn
Tâl Hysbysiad Adeiladu £:			

Cais unioni

	Ac eithrio TAW
Cost £:	

Cais dychweliad *Cysylltwch â'r Adran Rheolaeth Adeiladu am ffi bwrpasol*

20 **Datganiad**

Mae'r cais hwn am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu yn ymwneud â'r gwaith adeiladu ac ati a ddisgrifiwyd uchod. Fe'i cyflwynir yn unol â Rheoliad 12(2)(a) / (b) (Rheoliad 18 ar gyfer ceisiadau unioni) ac mae'r tâl priodol yn gynwysedig.
Rwyf/Rydym yn deall y gallai ffioedd pellach fod yn daladwy gan yr ymgeisydd yn dilyn yr archwiliad cyntaf gan yr awdurdod rheolaeth adeiladu.
Rwyf/Rydym yn gwneud cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu fel y disgrifir ar y ffurflen hon ac fel y manylir ar unrhyw ddogfennau atodol.

Llofnod yr ymgeisydd:

Llofnod: ______ **Enw:** ______ **Dyddiad:** ______

Rwyf i, yr cleient, yn cadarnhau fy mod yn cytuno i'r cais gael ei gyflwyno a bod yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cais yn gywir.

Llofnod y cleient (lle nad y cleient yw'r ymgeisydd)

Llofnod: ______ **Enw:** ______ **Dyddiad:** ______

Drwy lofnodi'r ffurflen gais hon, rydych yn cadarnhau eich bod wedi darllen a deall eich rôl a'ch cyfrifoldebau fel deiliad dyletswydd a neilltuwyd i chi, neu eich bod wedi hysbysu'r rhai y neilltuwyd iddynt gyfrifoldeb am gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu, fel yr amlinellir yn Rhan 2B o Reoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd).
Drwy lofnodi'r ffurflen gais hon, rydych hefyd yn cadarnhau eich bod yn gallu cyflawni'r dyletswyddau a neilltuwyd i chi.

Ar gyfer cleientiaid domestig nad ydynt wedi neilltuo pob swydd deiliad dyletswydd, bydd y cyfrifoldebau hynny'n trosglwyddo'n awtomatig i'r dylunydd sy'n rheoli cyfnod dylunio'r prosiect, a fydd yn dod yn Brif Ddylunydd, a'r contractwr sy'n rheoli cyfnod adeiladu'r prosiect fydd yn dod yn Brif Gontractwr, i gyd yn unol â Rhan 2B o Reoliadau Adeiladu 2010 (fel y bo'n berthnasol yng Nghymru).

Mae'r cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu â chynlluniau llawn i hysbysu'r awdurdod rheolaeth adeiladu am waith adeiladu ac ati wedi'i gyfyngu i rai mathau o adeiladau. Bydd angen gwybodaeth ychwanegol hefyd i gyd-fynd â'ch cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu â chynlluniau llawn, yn dibynnu ar y gwaith arfaethedig. Ceir rhagor o wybodaeth yn y nodiadau a'r rhestr wirio sydd ynghlwm. Ni ellir defnyddio'r ffurflen hon ar gyfer ceisiadau am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu ar gyfer gwaith adeiladu risg uwch na cham o waith adeiladu risg uwch, nac ar gyfer gwneud gwaith ar adeiladau risg uwch presennol.

Pan fo gwaith adeiladu yn cael ei gynnig neu'n cael ei wneud unrhyw bryd ar ôl gwneud cais am gymeradwyaeth rheoli adeiladu â chynlluniau llawn neu rhoddir hysbysiad adeiladu, mae deiliad y ddyletswydd (y cleient, y prif gontractwr (neu'r unig gontractwr) / y prif gynllunydd (neu'r unig ddylunydd neu'r prif gynllunydd)) ar gyfer prosiect yn newid. Rhaid i'r deiliad dyletswydd newydd roi hysbysiad i'r awdurdod rheoli adeiladu o fewn 10 diwrnod gwaith i'r dyddiad y daeth yr unigolyn yn ddeiliad dyletswydd newydd.

I gael rhagor o gyngor ynglŷn â materion Rheoleiddio Adeiladu mae croeso i chi gysylltu â'ch Gwasanaeth Rheoli Adeiladu lleol, Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 1TP
Ffon: 01437 764551
E-bost: building.control@pembrokeshire.gov.uk
https://www.sir-benfro.gov.uk/cynllunio-a-rheoli-adeiladau

Bydd y wybodaeth parthed eich cais yn cael ei gadw am gyfnod o 15 mlynedd o ddyddiad cyhoeddi'r dystysgrif gwblhau.

Cwynion, Canmoliaethau ac Awgrymiadau:
Mae ein gweithdrefn gwyno ar gael ar ein gwefan: www.sir-benfro.gov.uk

Mae'r ffurflen hon ar gael yn y Saesneg yn ogystal.
Gallwch lawr lwytho fersiwn Saesneg o'n gwefan neu ffoniwch 01437 764551.

NODIADAU CAIS

1. **Math o gais:**
Cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu â chynllluniau llawn- * Dylid llenwi un copi o'r ffurflen hon a'i gyflwyno gyda'r ffi briodol a dau gopi o gynlluniau manwl, yn cynnwys manylebau adeiladu llawn a chynllun o' r safle ar raddfa I: 1250 neu I :2500
*Sylwer os bydd gwaith yn cael ei wneud cyn rhoi cymeradwyaeth ffurfiol, yna mae hyn yn cael ei wneud ar eich menter eich hun. Efallai bydd angen yn ddiweddarach newid rhannau o'r gwaith adeiladu/gosodiadau er mwyn cydymffurfio â'r cais sydd wedi ei gymeradwyo a'i archwilio.
Ceisiadau Rhybudd Adeiladu - Dylid llenwi un copi o'r ffurflen hon a'i gyflwyno gyda'r ffi briodol a chynllun o' r safle ar raddfa I: 1250 neu I:2500 i ddangos manylion draeniad a ffiniau'r safle. Efallai y bydd gofyn am ragor o wybodaeth, e.e. cyfrifiadau peiriannydd. Fedd bynnag, ni ellir defnyddio'r dewis 'Rhybudd Adeiladu' lle:
a. Mae'r adeilad yn 'adeilad perthnasol' o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddiol (Diogelwch Tan) 2005.
b. Mae'r gwaith adeiladu dros neu oddi fewn 3m i garthffos gyhoeddus.
c. Mae'r annedd/anheddau newydd yn wynebu stryd breifat.
Ailgyflwyno - rhowch y cyfeirnod blaenorol os gwelwch yn dda
Rheoleiddio - Cais ôl-weithredol i gael Tystysgrif Unioni ar gyfer gwaith adeiladu heb awdurdod a gwblhawyd heb ganiatâd.
Cais dychweliad - Cysylltwch â'r adran Rheoli Adeiladu am gymorth pellach.

2. **Y cyfeiriad lle mae'r gwaith adeiladu i'w wneud** Cyfeiriad post llawn y lleoliad lle mae'r gwaith adeiladu i'w wneud, gan gynnwys y cod post. Dylid cynnwys cynllun lleoliad sy'n ddigon da i fedru adnabod y safle yn rhwydd.

3. **Disgrifiad llawn o'r gwaith:** Rhowch ddisgrifiad clir o'r gwaith arfaethedig, gan gynnwys math a graddfa'r gwaith adeiladu (e.e. estyniad, addasiad, newid, neu adeilad newydd).
Nifer yr ystafelloedd gwely - Cyfanswm nifer yr ystafelloedd gwely arfaethedig ym mhob annedd newydd.
Dyddiad dechrau – Dyddiad y mae'r gwaith i fod i ddechrau ar y safle
Dyddiad cychwyn- Nodwch y dyddiad disgwyliedig y bydd y gwaith yn cyrraedd y cam lle ystyrir ei fod wedi cychwyn o dan Reoliad 46B (nid dim ond pan fydd y gwaith yn dechrau ar y safle am y tro cyntaf).
Gweler nodiadau pellach ar y Bwriad i Ddechrau Gwaith/Arolygiadau a Chychwyn

Gall y rolau 4 i 8 isod orgyffwrdd ond rhaid eu nodi'n glir o hyd.

4. **Manylion yr ymgeisydd :** Yr unigolyn sy'n cyflwyno'r cais am reolaeth adeiladu. Gall fod y cleient, adeiladwr, pensaer, neu asiant sy'n gweithredu ar ran y cleient. Noder y bydd gohebiaeth yn cael ei hanfon at yr unigolyn/cwmni a enwir fel ymgeisydd.

5. **Manylion y cleient / Manylion y cleient domestig** Yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n comisiynu'r gwaith adeiladu. Mae'n dal cyfrifoldeb cyffredinol am y gwaith o sicrhau cydymffurfedd. (Mae cleient domestig yn golygu cleient y mae prosiect yn cael ei gynnal ar ei gyfer nad yw yn ymwneud â chwrs neu ddilyniant busnes y cleient hwnnw).

6. **Manylion y prif gontractwr / unig gontractwr :** Y contractwr sydd â rheolaeth gyffredinol dros y cyfnod adeiladu. Yr unigolyn a benodwyd i gynllunio, rheoli a chydlynu'r cyfnod adeiladu

7. **Manylion y prif ddylunydd / unig ddylunydd neu brif ddylunydd :** Cyfrifol am gynllunio, rheoli a chydlynu gwaith dylunio. Sicrhau cydymffurfedd iechyd, diogelwch a rheoleiddiol wrth ddylunio.

8. **Ffi archwilio:** Yr unigolyn sydd â chyfrifoldeb am dalu'r ffi archwilio a fydd yn cael ei anfonebu ar ôl yr archwiliad cyntaf ar y safle. At ddibenion archwilio, rhowch yr enw cyntaf a'r cyfenw LLAWN, gan gynnwys teitl yr unigolyn sy'n atebol.

9. **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (fel y'i diwygiwyd) :** Mae hyn yn berthnasol i adeiladau annomestig (e.e. swyddfeydd, siopau, llety gwyliau ac ati) a rhannau cyffredin adeiladau preswyl (e.e. fflatiau). Nid yw'n berthnasol i anheddau preifat sengl.

10. **Defnydd presennol yr adeilad:** Rhowch fanylion am ddefnydd presennol yr adeilad, defnydd pob llawr, ei uchder (mewn metrau), a chyfanswm nifer y lloriau (wedi'u cyfrifo yn unol â Rheoliadau Adeiladau Risg Uwch 2023).

11. **Defnydd arfaethedig yr adeilad:** Rhowch fanylion am ddefnydd arfaethedig yr adeilad, defnydd pob llawr, ei uchder (mewn metrau), a chyfanswm nifer y lloriau ar ôl y gwaith arfaethedig (wedi'i gyfrifo yn unol â Rheoliadau Adeiladau Risg Uwch 2023).

12. **Caniatáu cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu â chynllluniau llawn yn ddarostyngedig i ofynion** : Cydsynio i ganiatáu'r cais gyda gofynion - nodwch a ydych yn cydsynio i ganiatáu'r cais gyda gofynion (amodau) y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw.

13. **Cyfnod Rhagnodedig :** Cydsynio i estyniad amser - cadarnhewch a ydych chi'n cydsynio i estyniad amser i benderfynu ar y cais.

14. **Dull draenio a chyflenwi dŵr:**
Modd o garthffosiad- Nodwch sut y caiff dŵr budr ei waredu (e.e. prif garthffos, tanc septig, gwaith trin).
Modd o drin dŵr arwyneb- Nodwch sut y bydd dŵr wyneb yn cael ei waredu (e.e. carthffos, ffos gerrig, cwrs dŵr, SDCau).
Cyflenwad Dŵr- Nodwch sut y bydd yr adeilad yn cael ei gyflenwi â dŵr (e.e. prif gyflenwad neu gyflenwad preifat).

15. **Cyfrifiadau SAP:** Os yw'r cynnig ar gyfer tŷ, fflat, addasiad neu estyniad newydd (lle mae arwynebedd y gwydr yn fwy na 25% o arwynebedd llawr yr estyniad), mae'n ofynnol cyflwyno Gweithdrefn Asesu Safonol (SAP) dylunio erbyn y diwrnod cyn i'r gwaith ddechrau ar y safle fan bellaf.

16. **Gosodiadau Trydanol mewn Anheddau:**
Cynllun Person Cymwys - Lle gwneir gwaith gosod trydanol gan osodydd gyda chynllun person cymwys Rhan P awdurdodedig, nid oes rhaid cyflwyno cais rheoliad adeiladu (gweler rhestr gyfarwyddyd ar wahan am restr o gynlluniau cymeradwy).
Tystysgrif BS7671 - Bydd trydanwr cymwysedig a chymwys (e.e. wedi cymhwyso i Dystysgrif City & Guilds 2391/ 18eg Dosbarthiad IEE Rheoliadau Gwifrau) yn gwneud y gwaith ac yn ardystio ei fod wedi ei ddylunio, ei osod, ei archwilio a'i brofi yn unol a BS7671 a bydd yn darparu Tystysgrif Gosodiad Trydanol gyda rhaglenni archwilio a phrofi cysylltiedig hyd at BS7671. Gweler y nodyn cyfarwyddyd ar wahân am daliadau perthnasol.
Lle mae gwaith trydanol i fod i gael ei wneud gan drydanwr nad yw'n gallu darparu'r naill opsiwn na'r llall uchod, yna gall yr adran Rheolaeth Adeiladu drefnu i'r gwaith gael ei archwilio. Noder y bydd yr opsiwn hwn yn achosi tâl ychwanegol yn ychwanegol at y tâl gwneud cais arferol. Cyfeiriwch at y cynllun taliadau am fanylion.

17. **Caniatâd Cynllunio:** Cyfeirnod unrhyw ganiatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer y gwaith arfaethedig

18. **Gwaith ar gyfer yr Anabl** : Mae rhai mathau o waith sydd er budd pobl anabl yn unig wedi'u heithrio rhag taliad, yn amodol ar dystiolaeth ddigonol.

19. **Ffioedd:** State the applicable Building Control fees using the Charges & Guidance sheet payable for this application. If you are unsure of the fee then please contact Building Control.

20. **Declaration:** Mae'r datganiad yn cadarnhau bod yr wybodaeth a ddarparwyd yn gywir a bod yr ymgeisydd wedi'i awdurdodi i weithredu ar ran y cleient. Mae'r cleient yn cadarnhau ei fod yn cytuno â'r cais ac yn deall ei gyfrifoldebau o dan y Rheoliadau Adeiladu. Gellir darparu llofnodion yn electronig.

Arweiniad pellach

Dilysrwydd: Bydd y cais Rheoliadau Adeiladu yn peidio â chael effaith dair blynedd ar ôl y dyddiad y dilyswyd y cais gan yr awdurdod oni bai bod y prosiect yn dechrau yn ffurfiol o fewn y cyfnod hwnnw. Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2025 (Rheoliad 46b)
Am ragor o wybodaeth a chanllawiau ynghylch prosiectau ar amryw leiniau, cyfeiriwch at Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 (adran 36)

Bwriad i ddechrau gwaith ac arolygiadau Rhaid rhoi rhybudd i'r corff rheolaeth adeiladu sy'n goruchwylio'r gwaith ddau ddiwrnod gwaith cyn y dyddiad y bwriedir dechrau ar y gwaith ac o fewn pum diwrnod gwaith i'r adeg y dylid ystyried bod y gwaith wedi dechrau. Ar gyfer pob archwiliad arall, gofynnir i chi roi rhybudd o 24 awr.

Cychwyn : Y cychwyn yw'r dyddiad y bwriedir i'r gwaith gyrraedd y pwynt pan gaiff ei ystyried i fod wedi dechrau yn unol â Rheoliad 46B (dod â chymeradwyaeth rheolaeth adeiladu i ben, cychwyn gwaith: Cymru); lle nad yw'r gwaith yn cynnwys gwaith y mae paragraff (2) neu (3) o Reoliad 46B yn berthnasol iddo, nodwch fanylion y gwaith lle mae'r cleient yn ystyried bod angen mewnbwn rheolaeth adeiladu.
I grynhoi: pan fydd adeilad cymhleth yn cael ei adeiladu, bydd y gwaith yn cychwyn pan fydd y sylfeini ac adeiledd y llawr isaf wedi'u cwblhau. Ar gyfer unrhyw fathau eraill o waith, bydd y gwaith yn cychwyn pan fydd digon o waith parhaol wedi'i gwblhau sy'n gofyn am fewnbwn rheolaeth adeiladu.

Cwblhau: Trefnwch i archwiliad terfynol gael ei gynnal fel y gall yr adran Rheolaeth Adeiladu ddyroddi tystysgrif gwblhau. Os oes gwaith trydanol wedi cael ei wneud, bydd angen copi o'r dystysgrif drydanol arnom cyn y gallwn ryddhau ein tystysgrif Rheoliadau Adeiladu.

Mae rheoliadau adeiladu bellach yn ei gwneud yn ofynnol, ar ôl cwblhau gwaith adeiladu, i bob deiliaid dyletswydd; y cleient, y prif gontractwr a'r prif ddylunydd gyhoeddi datganiad cydymffurfio wedi'i lofnodi i Gyngor Sir Penfro yn cadarnhau bod y gwaith yr oeddent yn gyfrifol amdano, hyd eithaf eu gwybodaeth, yn cydymffurfio â rheoliadau adeiladu. Gellir gwneud y datganiad hwn ar wahân neu gyda'i gilydd a rhaid ei roi i Gyngor Sir Penfro o fewn pum diwrnod i'r adeg yr ydych yn ystyried bod y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau a bod angen ei archwilio a'i gymeradwyo.

Rhaid talu'r holl ffioedd perthnasol cyn y gellir rhyddhau'r dystysgrif. Dylid cadw'r tystysgrifau hyn gyda'ch gweithredoedd, gan y bydd eu hangen pan fyddwch yn gwerthu'r eiddo.

Diogelu Data: Bydd y Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth amdanoch ar y ffurflen hon er mwyn asesu'ch cais ar gyfer caniatad rheoliadau adeiladu. Bydd cyfeiriad safle'r gwaith a disgrifiad ohono yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Gallwn rannu eich gwybodaeth gyda Dŵr Cymru Welsh Water, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gwasanaeth Tan os bydd angen fel rhan o'r asesiad ar gyfer eich cais am ganiatâd rheoliadau adeiladu.
Mae'r Cyngor yn darparu amrywiaeth o wasanaethau er eich budd chi a'r gymuned leol. Gall y wybodaeth bersonol yr ydych yn ei ddarparu gael ei rhannu ymysg Adrannau'r Cyngor ac Asiantaethau eraill lie mae'n ofyniad cyfreithiol i ni wneud hynny.

Mae ein hysbysical prosesu teg ar gael ar ein gwefan
www.sir-benfro.gov.uk/addewid-preifatrwydd